CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL 24ain O FEDI 2009 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS - LLANBEDR PONT STEFFAN

YN BRESENNOL
Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd);
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; John Davies, Elsie Dafis,
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Margaret Davies-Evans;
Kistiah Ramaya; Chris Thomas,
Dorothy Williams & Derek Wilson.
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris
Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter
Arolygydd yr Heddlu Paul Bonning
Mr Nathan Yates – Gohebydd y Wasg y Cambrian News

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod.
Boed i'r Cyng. Kistiah Ramaya arwain aelodau mewn gweddi.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Tref Andrew Carter.
Mynegwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Chris Thomas ar farwolaeth ei dad-yng-nghyfraith yn ddiweddar.
Estynwyd dymuniadau gorau i Mrs Jan Harris a Mr Ian Barton gan fod y ddau'n teimlo'n anhwylus ar hyn o bryd.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL
3.1 **Cyng. Mason-George** pan yn trafod y ddeiseb a'r cais am welliannau ar gyfer Parc-yr-Orsedd;
3.2 **Cyng. C.Thomas** pan yn trafod y cais am gymorth ariannol o'r Ambiwlans Awyr Cymru;
3.3 **Cyng. R.Phillips** pan yn trafod y cais am gymorth ariannol ar gyfer y Ford Gron parthed yr Arddangosfa Tân Gwyllt 2009.
Bu i'r tri ohonynt ymadael â'r ystafell.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU
Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:
4.1 **Adroddodd Arolygydd yr Heddlu Carter y bydd yn gadael** yr ardal i dderbyn dyrchafiad dros-dro, am y trydydd tro. Bydd yn ymwneud â chwrs 3 mis â gofal am hyfforddiant ym Mhencadlys yr Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin. Bydd Arolygydd dros-dro sef Paul Bonning yn cymryd ei lle yn Llambed ac Aberaeron. Y mae ymadawiad yr Arolygydd Carter yn digwydd ar y cyd a newid ym mhersonél yn Llambed ac Aberaeron. Bydd Swyddog yr Heddlu Richard Marshall yn adleoli o Dregaron i Lambed a bydd y Blismones Jo Carter yn symud ymlaen i borfeydd newydd.
4.2 **Ardal Gwahardd Alcohol Arfaethedig(AGAA) ar gyfer Llambed:**
Y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cais ar y cyd rhwng Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Yfed Alcohol Mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (Llanbedr Pont Steffan) 2009 o dan Adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.
Dechreuodd y cyfnod ymgynghori yn Llambed ar y 5ed o Awst ac i orffen ar y 30ain o Fedi 2009. Bydd y CSC yn asesu'r ymatebion ac yn cyflwyno adroddiad i'w hystyried ar ôl hynny.

4.3 **Mae canlyniad y cais am gymhorthda**l gan yr Heddlu ar gyfer y Prosiect Cae Maesyderi ag enwebwyd ar ran y Cyngor Tref gan SCCH Ryan Jones, heb fod yn llwyddiannus oherwydd y nifer helaeth o ymgeiswyr.

4.4 **Gresynwyd y problemau traffig** ar Heol y Porthmyn.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 27AIN O AWST 2009

Derbyniwyd cofnodion mis Awst fel rhai cywir

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** derbyniwyd dyfynbris gan Garej Forge, Cwmann ar gyfer trwsio'r hysbysfwrdd sef £549 (heb TAW) a dyfynbris oddi wrth Steel Fabricators (Cymru) Cyf £619 (heb TAW).

Penderfynwyd derbyn cynnig Garej Forge, Cwmann sef £549 (heb TAW)

6.2 **Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref:**– y mae'r wybodaeth yn ymwneud â'r ddau fin wedi ei chyflwyno i Rachel Mills, Cydlynydd Trefi Taclus sy'n archebu'r biniau ar ran y Cyngor Tref – un i'w leoli ar Stryd y Farchnad a'r llall ym Mharc-yr-Orsedd. Bydd y Cyngor Tref yn cwrdd â'r gost o un bin a'r *Cynllun Trefi Taclus* yn talu am y llall.

6.3 **Parc-yr-O rsedd:** bydd 5 o feinciau newydd yn cael eu gosod yn y parc yn fuan.

6.4 **2 Arwydd stryd -Parc St. Germain-sur-Moine**: Y mae'r Cyng. Phillips wedi archebu 2 arwydd am dâl o £138 yr un.

6.5 **Clos Glyndŵr:** Bydd yr arwydd yn datgan y geiriau *Clos Glyndŵr* yn cael ei brynu gan y Cyngor Sir a'i osod ar eiddo Mr Simon Anderson.

6.6 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Mae trefniadau ar y gweill i Reolwraig CAB i fynychu'r cyfarfod mis Hydref y Cyngor Tref.

6.7 **Shelter Cymru: parthed y gwasanaeth yn Llambed;** bydd y gwasanaeth yn ail-ddechrau yn Llambed ar y dydd Gwener olaf ym mhob mis o 10am-1pm yn Adeilad CAVO gan gychwyn ar y 25ain o Fedi, gan eithrio mis Rhagfyr-cynhelir ar yr 11eg o Ragfyr. Bydd Shelter Cymru'n monitro'r galw am y gwasanaeth yn Llambed. Y mae angen cyflwyno adborth i'r cyflwyniad a dderbyniwyd gan Michelle Prosser, *Shelter Cymru* yn ystod cyfarfod Mis Mai'r Cyngor Tref parthed y gwasanaeth a hefyd cyflwyno gwybodaeth ar ba mor ddefnyddiol yw'r pecyn *Gwerth Gwybodaeth i Gymunedau Gwledig* ym marn cynghorwyr. Penderfynwyd gofyn tybed a fyddai'n bosibl i gyflwyno ymateb ar-lein.

6.8 **Adroddwyd bod tua chwarter yr arwydd** stryd yn datgan y geiriau 21-26 Bryn-yr-Eglwys/Penbryn wedi cael ei dorri i ffwrdd. Hefyd yr arwydd â'r geiriau Maesyderi/ Gwêl y Creuddyn sydd wedi ei leoli o flaen Eglwys San Pedr, y mae wedi colli ei siap. Adroddwyd at sylw'r CSC. Y mae arwyddion stryd fel hyn yn derbyn blaenoriaeth isel gan y Cyngor Sir. Gellir cymryd i fyny at dwy flynedd i gyfnewid yr arwyddion am rai newydd. Petai'r Cyngor Tref yn gytûn i dalu'r gost, gellir eu newid ynghynt. Penderfynwyd i wrthod y cynnig ac aros i'r CSC i'w newid yn eu tro.

6.9 **Bydd y Cyng Wilson yn clustnodi** sylw pellach i'r Bwrdd Anrhydeddu sydd angen ei docio.

6.10 **Problemau Trafnidiaeth Llambed**

6.10.1 Maes Parcio'r Rookery

Adroddodd y Cyng. Harris y byddai'r Cyngor Sir yn ymgymeryd â newidiadau i'r fynedfa er mwyn sicrhau digon o le ar gyfer bysiau a

loriau trwm hir a llwythog. Nid yw'r trefniant hwn wedi ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan GSC.

6.10.2 Maes Parcio'r Cwmin

Mae'r CT wedi mynegi ei gefnogaeth i gais y CSC i gyflwyno mesuriadau yn ymwneud â pharcio ar y Cwmin, os gellir gorestyn obligiadau cyfreithiol h.y. parcio am gyfnod cyfyngedig ar gyfer holl gerbydau heb godi tâl. ***Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.*** Mae aelodau'r cyhoedd wedi lleisio pryder ynglŷn â'r system bresennol sy'n caniatau cerbydau i barcio o flaen eu tai ar Rhes Harford. Byddai llinell felen o fudd. Cysylltwyd â'r Cyngor Sir. ***Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.***

6.10.3 Arolwg Traffig Llawn

Byddai arolwg traffig llawn yn golygu'r defnydd o adnoddau helaeth ac nid yw'n bosibl i'r Awdurdod i gefnogi'r cais ar hyn o bryd. Y mae cais y Cyngor Tref yn mynd yn ei flaen.

6.10.4 Cais oddi wrth un o drigolion Heol y Gogledd, Llambed i osod croesfan ar gyfer cerddwyr ar Heol y Gogledd oherwydd rhesymau diogelwch. Cytunwyd i drosglwyddo'r llythyr at sylw'r Cyngor Sir yn mynegi bod y CT yn hollol gefnogol i unrhyw fesuriadau sydd o gymorth i hybu diogelwch cerddwyr ar Stryd y Gogledd. Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i leoli croesfan ar gyfer troedwyr ar yr heol. Y mae pob lleoliad a nodir yn cael ei flaenoriaethu drwy edrych ar hanes gwrthdrawiadau yn y lleoliad dan sylw ac ar anafiadau personol a achosir gan y gwrthdrawiadau hynny. Bydd y wybodaeth honno wedi ei seilio ar wybodaeth ffurfiol a ddaw oddi wrth Heddlu Dyfed-Powys. Hefyd, fel rhan o'r broses hon, fe ystyrir y lleoliad, geometreg y ffordd, y llif traffig, ymddygiad defnyddwyr y ffordd a phresenoldeb cerddwyr a seiclwyr sy'n fwy agored i niwed. Gall y broses a ddefnyddir i asesu ceisiadau am rai mathau o fesurau rheoli traffig fod yn hir a chymhleth. Bydd yr asesiad yn ystyried beth yw arwyddocâd y broblem mewn lleoliad penodol ac yn nodi'r camau cywiro priodol. Hefyd, bydd angen sicrhau'r arian a'r awdurdod angenrheidiol i wneud y gwaith. O bryd i'w gilydd, gall yr hyn sy'n ymddangos fel cynigion call a theilwng ar yr olwg gyntaf syrthio'n fyr o feini prawf yr asesiad. O ganlyniad gall yr amser a gymerir i ymateb i'r cais fod yn eithaf hir.

Roedd aelodau'n parhau i fod rhwng dau feddwl ynglŷn â diogelwch cerddwyr ar Heol y Gogledd a phenderfynwyd gwneud cais am asesiad o'r ardal gyda'r bwriad o osod croesfan ar gyfer cerddwyr mewn lle neu o leiaf i gyflwyno ryw fath o fesur rheoli traffig ar Heol y Gogledd.

6.10.5 Mountwalk: Cytunwud i ddarganfod a oedd datblygiadau pellach yn ymwneud â'r Cyfarfod Safle o'r 3 Ebrill 2009, rhwng cynrychiolwyr CSC a'r CT. Dosbarthwyd yr adborth y cyfarfod eisoes. Trafodwyd y cynlluniau *Teithio'n Ddiogel i'r Ysgol* a'r *Bws Cerdded* ar gyfer plant cynradd.

6.10.6 Parcio Heol-y-Bryn: o flaen adeilad yr hen ysgol gynradd: gofynnwyd i GSC i ddiddymu'r Gorchymyn Traffig ar Heol y Bryn ger yr hen ysgol (y llinell felen). Gan fod ansicrwydd ynglŷn â defnydd dyfodol yr adeilad, ni wnaethpwyd penderfyniad i ddileu/gadw'r linell. Nid oedd y CSC eisiau bod yn y sefyllfa ble fyddai'n angenrheidiol iddynt waredu â'r linell ond i orfod ei hail-sefydlu petai'r angen gan y perchennog newydd. Disgwylir arweiniad o'r Adran Ystadau CSC. Ynglŷn â'r linell igamogam ar Bryn-yr-Eglwys y mae wedi diflannu i'r fath raddau, efallai nad yw'r Gorchymyn yn weithredol bellach. Does dim llawer o farciau ar gael ar

ôl i'w gwaredu. Byddai diddymu'r linell yn gyfangwbl yn dibynnu ar ddefnydd dyfodol yr hen ysgol.

6.11 **Arwydd Tref Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr**: Yn disgwyl datblygiadau pellach gan GSC.

6.12 **Dwy flynedd yn ôl boed i'r** Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno dogfen ymgynghorol sef *Cymuned ar y Cyd:* Meithrin cydberthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref a oedd yn argymmell bod cytundebau siarter yn cael eu gosod mewn lle rhwng awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a thref. Y mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi penderfynu mabwysiadu'r fath siarter. Y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i'w drafod yn San Steffan. Os caiff y gorchymyn ei dderbyn bydd yn anghenrheidiol i weithredu'r siarter ymhob sir yng Nghymru. Nid yw yn fwriad i ychwanegu haen fiwrocrataidd arall i lywodraeth leol ond i gynhyrchu dogfen a fydd yn hybu'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod leol a chynghorau tref a chymuned. Holodd Clerc y Dref Aberystwyth sef Mr Jim Griffiths, farn y CT ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd darllen y ddogfen berthnasol sef *Cymuned ar y Cyd* cyn cyflwyno ymateb. (dosbarthwyd i'r aelodau).

6.13 **Y mae trefniadau ar y gweill** gan GSC i gynnal cyfarfodydd ymgynghorol â Chynghorau Tref a Chymuned, yn ystod y dyfodol agos.

6.14 **Cinio ar gyfer yr Anghenus**: Neuadd yr Eglwys San Pedr: Dydd Gwener 2ail Hydref: Cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw darparu'r ginio.

6.15 **Ymweliad â'r Ysgol Uwchradd**: dylai'r rhai sydd â diddordeb ymgynnull yn y Cyntedd.

6.16 **DEFRA:** holiadur i'w llenwi yn ymwneud â materion yr amgylchedd: Cyng Phillips i lenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Tref.

6.17 **Y mae sglodion pren** sydd wedi eu lleoli o gwmpas planhigion ar faes parcio Sainsbury yn dal i orlifio oddi ar eu gwelyau penodedig. (Y Maer i glustnodi sylw i'r mater)

7. GOHEBIAETH

7.1 **Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Lleol:** Cynullaid Cenedlaethol: dosbarthwyd y ddogfen ymysg aelodau.

7.2 **CBC: Un Llais Cymru:** Pafiliwn y Bont 10/10/2009: Enwebwyd y Cyng Phillips a D.Williams i gynrychioli'r Cyngor Tref yn y gynhadledd hon.

7.3 **Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru** Adroddiad Blynyddol a Gweithdy 2009: er gwybodaeth.

7.4 **Macmillan Cefnogaeth Canser:** Bore Coffi Mwyaf y Byd 25 Medi: er gwybodaeth.

7.5 **Gohebiaeth Eraill:** er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

8.1 **Gwefan y Cyngor Tref**

Derbyniwyd 4 dyfynbris sef:

- **Studios Lucid Tek Cyf;** 5 Old Post-Office Mews, Llambed, SA48 7DW;
- **CWNDESIGN:** Pant-y-Nos; Llanfair Clydigau; Llambed; SA48 8LU;
- **Dr C L Harrison,** Deskforce, Llambed, SA48 8YP;&
- **New Audience Ltd,** Unit 26 Empire Industrial Park, Empire Close, Aldridge, West Midlands, W598UQ.

Rhoddwyd caniatâd i'r Cyng. Phillips i gysylltu â 3 Cwmni i geisio eglurhâd pellach parthed gofynion arbennig y safle. Penderfynwyd dirprwyo swyddogaethau i'r Maer a'r Dirprw-Faer i ddarganfod yr ymgeisydd mwyaf cymwys ar gyfer dylunio'r safle.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 Mae'r ceisiadau canlynol wedi eu caniatau gan Gyngor Sir Ceredigion

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	Ymgeisydd a'r bwriad	Lleoliad
4/09/2009 Rhif y Cais: A080688	Mr E Davies Wenllys Stryd Newydd, Llambed Adeiladu 3 rhandy a maes parcio cysylltiedig	Tir ar Stryd y Farchnad, Llambed.
11/09/2009	Mr A Hughes Cwmhendryd Llambed Trosi adeilad allanol i annedd a chodi garej/ystafell hamdden.	Beudy Pontfaen Heol Pontfaen Llambed

9.2 Mae'r cais wedi ei dynnu'n ôl:

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	Ymgeisydd/ Bwriad	Safle a Chyfeirnod grid
4/09/2009 Rhif y Cais: A070072	Mr & Mrs DE Jones Codi Annedd	Tir gerllaw'r Hollis, Llambed. (257778 248856)

9.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 12.08.2009 a'r Agenda y cyfarfod 9.09. 2009: er gwybodaeth.

9.4 Rheol 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd Ceisiadau Cynllunio i GSC. Penderfynwyd ymateb i wahoddiad y CSC i dderbyn ac i gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio'n electronig. Mae'r ceisiadau electronig yn ffurfio oddeutu 30% o'r ceisiadau cynllunio a dderbynnir gan y Cyngor Tref. Mae un cais treial wedi ei dderbyn. Anfonir gopiau papur yn ychwanegol gan GSC.

10. CYLLID

10.1 Cyfraniadau:£50.00- Ambiwlans Awyr Cymru

10.2 Derbyniwyd neges o ddiolch oddi wrth *Bwyllgor Papur Sain Ceredigion* am y rhodd o £50. Hefyd o *Gymdeithas Sioe'r Cardis* am y rhodd o £100 er budd Apêl Ceredigion Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2010.

10.3 Penderfynwyd peidio â chyfrannu at y Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru sy'n helpu plant sydd â pharlys yr ymennydd.

10.4 Cais am gymorth ariannol gan y Ford Gron Llambed ar gyfer yr Arddangosfa Tân Gwyllt 2009. Adroddwyd bod £400 wedi ei gyfrannu llynedd. Cytunwyd ar yr un rhodd eleni. (Bydd y mater yn cael ystyriaeth unwaith yn rhagor yn ystod cyfarfod mis Hydref)

10.5 Cyflog y Clerc (Medi) **£535.88**.

10.6 Golau/Gwres/Storio Dogfennau: £20.00

10.7 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £97.12

10.8 Torri gwair yng nghae Maesyderi, Mr Mike Brown, Caerfoel Cribyn- 6 toriad (£800 i dalu Mr Brown ym mis Tachwedd)

10.9 Cytunwyd i fuddsoddi £20,000 o arian y CT mewn cyfrif 9mis gan y Banc Barclays sy'n cynnig graddfa llog o 2% y flwyddyn. Disgwylir llog o £300 ar ddiwedd y cyfnod buddsoddiad.

10.10 Penderfynwyd gadael y penderfyniad ynglŷn â'r opsiynau sydd yn agored i'r CT yn ymwneud â gwario'r Cymynrodd, ar y bwrdd, am yr eildro, tan y cyfarfod nesaf. Amcanbris gwerth y cymynrodd yw £11,500.

10.11 Asesiad Risg yn ystod y flwyddyn 2009-10: mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

10.12 Arwydd ar gyfer Cae Maesyderi: *Dim Cŵn/Dim Sbwriel* ayyb £125 (gan gynnwys TAW)

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

11.1.1 Parc-yr-orsedd: Derbyniwyd llythyr gan Cally Mason-George yn cynnwys deiseb o 100 o enwau o aelodau'r cyhoedd yn ceisio gwelliannau ar gyfer Parc-yr-Orsedd er mwyn sicrhau diogelwch plant bach yn y parc. Hefyd cais am gynnydd mewn offer chwarae yn y parc. Cytunodd y Cyng. Chris Thomas i glustnodi sylw pellach i'r mater ac i adrodd nôl yn ystod y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i archebu arwydd tebyg i'r un sydd wedi ei arddangos yn barod ar brif fynedfa'r parc, i'w osod ger mynedfa Heol y Gogledd.

11.1.2 Arolwg Meysydd Chwarae ym Mharc yr Orsedd: Cariwyd allan gan *Digley Associates Cyf* ar y 3ydd o Fedi. Bu'r Cyng Chris Thomas, Derek Wilson a'r Clerc yn bresennol. Disgwylir adroddiad ysgrifenedig maes o law.

11.1.3 Derbyniwyd anfoneb o £350 oddi wrth Gymdeithas y Cerddwyr yn ymwneud â gwelliannau i lwybrau traed yn y cyffiniau. Cytunwyd mewn cyfarfod cynt i gwrdd â'r gost.

11.1.4 Anfoneb o £650 oddi wrth Mr E.Williams parthed gwaith ar lwybrau yn ystod misoedd yr haf. Cyflwynwyd i GSC, ble gobeithir derbyn cymhorthdal o 75% o dan y *Cynllun Llwybrau Cymunedol.* Gobeithir derbyn £487.50. Bydd y 25% gweddill sef £162.50 yn cael ei dalu o goffrau'r Cyngor Tref.

11.2 CAMERAU TCC

11.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Gorffennaf CSC: bu yna 2 gais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud ag ymosodiad rhywiol ac ymosodiad.

11.2.2 Adroddiad Misol ar gyfer Awst CSC: bu yna 4 cais gan yr heddlu i edrych ar deunydd digidol yn ymwneud ag ymholiad i lofruddiaeth, difrod troseddol, ymosodiad/ysgarmes a gwrthdrawiad traffig ar yr heol. Bu yna 7 cais gan yr heddlu i edrych ar ddisgenni copi.

11.3 GOLEUADAU STRYD

Derbyniwyd cwyn gan Mr Andrew Jones, un o drigolion Brynsteffan ar y 17eg o Fedi yn adrodd nad oedd y goleuadau stryd yn gweithio o'r Garej ATS i Ystâd Brynsteffan. Mae'r mater wedi ei ddatrys erbyn hyn.

11.4 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
Cynhaliwyd cyfarfod ar y 22ain o Fedi (Cofnodion ynghlwm) Dywedodd y Maer, "Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen, ac yn barod y mae plant yn chwarae ar y cae a oedd ynghynt yn tyfu'n wyllt."

11.5 PALMANTAU

Adroddwyd bod namau'n bodoli ar balmantau megis

- Rhwng Siop Gwilym Price a'r Archfarchnad Spar;
- Ar Heol y Porthmyn ger yr hen Feddygfa; &
- Yn is na Landre, Heol y Bont: mae'r palmant wedi ei gloddio i fyny, a tharmac wedi ei osod ar yr wyneb yn hytrach na slabiau fel gweddill y palmant. ***I adrodd at sylw'r CSC.***

12. U.F.A.

12.1 Penderfynwyd cysylltu â'r Adran Addysg CSC i weld tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Tref i gynnal cyfarfodydd mewn ysgol leol, yn rhad ac am ddim. Nid oes cartref parhaol gan y Cyngor Tref i gynnal cyfarfodydd. Cynhaliwyd cyfarfodydd ynghynt yn Neuadd y Dref, cyn ei thrawsnewid i Ganolfan Gwiltiau.

12.2 Adroddodd y Gyng. Margaret Davies-Evans bod angen chwynnu yng nghyffiniau'r Cwmins a'r ardal o gwmpas – i adrodd at sylw'r CSC.

13. Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Nos lau 29ain o Hydref am 7.00pm yn Neuadd yr Eglwys Llambed

----------(Cadeirydd & Dyddiad)